Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 24/10/22 News

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary.

24/10/22 Gweithdy Dawns *Diwali Dance Workshop*
26/10/22 - Clwb Chwaraeon Bl 3-6 / *Yr 3-6 Sports Club*
27/10/22 Disgo Calan Gaeaf Cyfeillion yr Ysgol yn neuadd yr ysgol / Friends of the School *Halloween Disco – in the school hall 6-7pm. £2.50.*
28/10/22 Traws Gwlad Dyffryn Clwyd / Vale of Clwyd Cross Country – am.
28/10/22 - Cau dros Hanner Tymor / *Close for Half Term Close*
29/10/22 Trefnu maes parcio Rali Cambrian / *Cambrian Rally Car Parking*
7/11/22 Plant yn ôl yn yr ysgol/ *Children return to school*
8/11/22 Lluniau Ysgol – unigolion a theuluoedd. *School Photos – individual and families.*
14/11/22 – Diwrnod Sanau Od – gwisgwch sanau od i'r ysgol/ *Odd Sock Day- wear odd socks to school*
15/11/22 – Noson Rieni / *Parents Evening 3.30-7.30pm*
18/11/22 Diwrnod Plant Mewn Angen – diwrnod di-wisg ysgol/ *Children in Need Day- non uniform day.*
21/11/22 Bl 1 a 2 – Jambori yn Ysgol Brynhyfryd – *Yr 1 & 2 – pm*
23/11/22 Bl 1-6 Sioe Nadolig – Theatr y Pafiliwn Y Rhyl – *Welsh Christmas Show Yr 1-6.*
15/12/22 Sioe Nadolig yr Ysgol / *School's Christmas Show*
23/12/22 Ysgol yn cau dros y Nadolig / *School closed for Christmas*
9/1/23 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Days*
10/1/23 Plant yn ôl yn yr ysgol/ *Children return to school*
16-17/1/23 Bl 3 a 4 yn mynd i Wersyll yr Urdd Glan Llyn – aros dros nos. *Yr 3 & 4 overnight visit to Glan Llyn Urdd Camp*

Bwydlen Cinio Ysgol/ School Lunch Menu
Primary Menus - Denbighshire School Meals
Wythnos 2 / Week 2

Pel Rwyd Merched / *Girls Netball*

Llongyfarchiadau i'r merched am gynrychioli'r ysgol yn Nhwrnament Pel Rwyd yr Urdd yn Ysgol Glan Clwyd Llanelwy yr wythnos diwethaf. Fe chwaraeon nhw yn ardderchog! *Congratulations to the girls who represented the school in the Urdd Netball Tournament in Ysgol Glan Clwyd, St Asaph last week. They played brilliantly!*

Rali Cambrian Rally

Rydym dal yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda Rali Cambrian sy'n dod i Goedwig Clocaenog DYDD Sadwrn. Os ydych ar gael i helpu a wnewch chi gysylltu gyda Jonathan (Tad Isabella) drwy ebostio jonathanrrtaylor@icloud.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi gwirfoddoli yn barod. *We are still looking for volunteers to help with the Cambrian Rally which is coming to Clocaenog Forest on SATURDAY. If you are available to help can you please contact Jonathan (Isabella's father) by emailing jonathanrrtaylor@icloud.com. Thanks to everyone that have volunteered already.*

Clwb Coginio a Gemau Bwrdd
Cookery and Board Games Club

Bydd Clwb Coginio a Gemau Bwrdd yn cychwyn ar brynhawn Mercher ar ôl hanner tymor gyda Mr Williams a Miss Hughes. Llenwch y ffurflen erbyn 12pm Dydd Llun Tachwedd 7fed os ydych am i'ch plentyn fynychu y clwb. *A Cooking and Board Games Club will start on a Wednesday afternoon after half term with Mr Williams and Miss Hughes. Please fil lin the form below by 12pm Monday November 7th if you want your child to join.*

https://forms.office.com/r/4pgAaL24ya

Cogurdd

Diolch i'r plant sydd wedi cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth. Bydd rownd yr ysgol yn cymryd lle fore IAU am 9.30am. Bydd Mr Eryl Williams yn dod i feirniadu. Pob lwc i bawb! *Thank you to the children that have registered for the competition. The school round will take place on THURSDAY morning at 9.30am. Mr Eryl Williams will be the adjudicator. Good luck to them all!*

Traws Gwlad / *Cross Country*

Pob lwc i'r canlynol fydd yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Dyffryn Clwyd fore Gwener nesaf yng Nghlwb Rygbi Rhuthun. Fe fydd y plant yn ôl i gael cinio. *Good luck to the following who will be representing the school in the Vale of Clwyd Cross Country Competition next Friday morning at Ruthin Rugby Club. They will be back in school in time for lunch.*

Tim Bl 5 a 6 Team – Lili Cet, Lili Hedd, Magi, Wil, Tomi a Cian.

Tim Bl 3 a 4 Team – Morus, Henri, Logan, Hari B. Anwen, Leia a Tesni.

PC Llinos

Daeth PC Llinos i siarad gyda'r plant hynaf yr wythnos diwethaf. Thema ei sgwrs gyda Bl 5 a 6 oedd 'Ymddygiad Gwrthgymdeithasol' a bu'n siarad gyda Bl 3 a 4 am 'Ffrindiau Da a Drwg'. Mae'r plant yn elwa yn arw o'i hymweliadau. *PC Llinos came to speak to the older children last week. She spoke to Yr 5 and 6 about 'Unsociable Behaviour' and the theme for Yr 3 and 4 was 'Friend or Foe'. The children benefit a lot from her visits.*

Diolchgarwch / *Harvest Service*

Cawsom wasanaeth hyfryd yn Eglwys Clocaenog gyda phob dosbarth yn cymryd rhan. Daeth Andras Iago atom i siarad am BabyBasics Dyffryn Clwyd a daeth a'i gitâr gyda fo a chanu gyda'r plant. Roedd cacennau yn ein haros yn yr eglwys hefyd – diolch i Gwydion a'r teulu am eu paratoi! Diolch i bawb gyfrannodd at BabyBasics drwy ddod a nwyddau babi i'r ysgol. Byddwn dal yn casglu nwyddau babis tan hanner tymor os oes rhywun arall am gyfrannu. *We had a lovely Service in Clocaenog Church with each class taking part. Andras Iago came to talk to the children about BabyBasics Charity and he brought his guitar as well so that he could sing with the children. There were delicious cakes waiting for us in church – thanks to Gwydion and family for providing them! Thanks to everyone who contributed baby provisions for BabyBasics. We will accept contributions until half term if anyone else wants to contribute.*

Bikeability

Llongyfarchiadau i blant Bl 6 am fod yn llwyddiannus yn y cwrs beicio lefel 1 a 2 yr wythnos diwethaf. Byddan nhw llawer mwy diogel yn beicio rŵan! *Congratulations to Yr 6 pupils who were successful in the Level 1 and 2 course last week. They will be much safer cycling on the road now!*

TEAMS4U

Bydd Miss Jones yn gweithio gyda'r plant i greu bocsys Teams4U yn ei gwersi hi yn yr wythnosau nesaf. Byddwn yn gofyn i bawb gyfrannu eitemau tuag at y bocsys ac fe gaiff y plant eu pacio a rhoi negeseuon i mewn yn y bocsys. Gobeithio creu 3 neu 4 bocs gyda pob dosbarth. Os oes gennych focsys esgidiau gwag a fedrwch chi eu gyrru nhw i'r ysgol. Mae croeso i deuluoedd baratoi bocsys esgidiau Nadoligaidd adref hefyd os y mynnant a bydd taflenni gyda mwy o wybodaeth yn cael eu gyrru adref. Byddwn angen y bocsys erbyn Dydd Llun Tachwedd 14eg.

Miss Jones will be working with the children to create Teams4U Christmas boxes in her lessons in the next few weeks. We will ask all the children to contribute items and then the children can wrap them, pack them and write messages to put in the boxes. We hope to create 3 or 4 boxes from each class. If you have any spare shoe boxes can you please send them into school. Families are also welcome to prepare Christmas Shoe Boxes at home and we will send information leaflets home. We will need the boxes in by Monday November 14th.

Shoebox Appeal 2022 - Teams4u

Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth
Show Racism the Red Card

Diolch i bawb am wisgo coch dydd Gwener a chefnogi ymgyrch 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. Cawsom wasanaeth yn rhoi gwybodaeth am hiliaeth a phwysigrwydd peidio bod yn hiliol yn ystod yr wythnos a bu pob dosbarth yn dysgu mwy yn y gwersi. *Thank you to everyone for wearing red to support 'Show Racism the Red Card' campaign on Friday. We had a Service during the week about Racism and the importance of not being racist. All the classes learned more in the lessons during the week.*